

# TELERAU AC AMODAU'R GRANT

## Telerau ac Amodau'r Grant

Yn y telerau a'r amodau hyn: (a) ystyr "**chi**" neu "**eich**" yw'r sefydliad, y corff, y cwmni neu'r unigolion y mae'r grant wedi cael ei ddyfarnu iddynt fel y nodir yn llythyr cynnig y grant a'r Crynodeb o'r Grant; (b) mae "**rydym**", "**ni**" neu "**ein**" yn golygu BBC Plant mewn Angen; (c) ystyr "**grant**" yw'r grant rydym wedi cytuno i'w ddyfarnu i chi fel y nodir yn ein llythyr cynnig grant a'r Crynodeb o'r Grant dros y dudalen; a (d) ystyr "**prosiect**" yw'r prosiect a/neu'r gweithgaredd rydym wedi cytuno i roi grant i chi ar ei gyfer.

Mae'r Telerau a'r Amodau Grant, ynghyd â'r amodau sydd wedi'u nodi yn y Crynodeb o'r Grant dros y dudalen neu unrhyw amodau grant eraill y rhown wybod i chi amdanynt yn ysgrifenedig ("**Telerau'r Grant**"), yn berthnasol i'ch defnydd chi o'r grant a derbyn y grant.

Daw Telerau'r Grant i rym ar y dyddiad y byddwn yn derbyn y Ffurflen Derbyn Grant wedi'i llofnodi gennych chi. Bydd Telerau'r Grant yn parhau mewn grym nes y byddwch wedi gwario'r holl grant (neu wedi ei ddychwelyd atom ni) ac wedi cwblhau eich adroddiad diwedd grant er boddhad i ni.

### Y grant a'r prosiect

- Rhaid i chi lofnodi a dychwelyd y Ffurflen Derbyn Grant sydd wedi'i chynnwys gyda'ch llythyr cynnig grant atom ni o fewn y terfynau amser sydd yn y llythyr cynnig grant. Fel arall, mae'n bosibl y byddwn yn dewis diddymu'r cynnig.
- Rhaid i chi ddechrau gwario'r grant o fewn y terfynau amser a nodir yn eich llythyr cynnig grant.
- Rhaid i chi fodloni unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth eich dyfarniad grant cyn gynted â phosibl, ond beth bynnag o fewn 6 mis i ddyddiad ein llythyr cynnig grant neu unrhyw gyfnod arall rydym wedi rhoi gwybod i chi amdano (oni bai ein bod yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig).
- Rhaid i chi ddefnyddio'r grant ar gyfer y prosiect yn unig (sy'n golygu, heb gyfyngiad, na ellir defnyddio'r grant i dalu am absenoldeb salwch tymor hir, taliadau dileu swydd, absenoldeb profedigaeth, absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu) ac yn unol â Thelerau'r Grant hyn ac unrhyw amodau eraill rydym yn eich hysbysu yn eu cylch. Ni ddylech roi, aseinio na throsglwyddo unrhyw ran o'r grant i unrhyw drydydd parti heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw.
- Rhaid i chi sicrhau cytundeb ysgrifenedig gennym ni cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, ei amcanion neu'r dibenion rydych yn defnyddio'r grant ar eu cyfer.
- Rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau a all effeithio ar ein grant neu'r prosiect, a hynny cyn pen 30 diwrnod ar ôl i chi ddod i wybod am newidiadau o'r fath. Er enghraifft, (heb gyfyngiad) newid cyfeiriad, newidiadau sylweddol i sefyllfa ariannol neu lywodraethu, colli cyllid arall ar gyfer y prosiect, newid mewn swydd-ddisgrifiad, unrhyw doriad mewn cyflogaeth sy'n achosi i chi wneud trefniadau eraill neu ail-hysbysebu'r swydd neu newidiadau i reolaeth eich sefydliad.

7. Rhaid i chi ddweud wrthym yn ddi-oed am y canlynol: (a) unrhyw hawliadau sy'n cael eu bygwth yn eich erbyn chi, eich gwirfoddolwyr, staff neu aelodau a allai effeithio ar y prosiect (dim hwyrach na 30 diwrnod ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o hawliadau o'r fath); (b) unrhyw ymchwiliad i chi, eich gwirfoddolwyr, staff neu aelodau gan yr heddlu, y Comisiwn Elusennau (neu gorff rheoleiddio cyfatebol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon), CThEM neu gorff rheoleiddio; (c) unrhyw, wir weithgarwch twyllodrus neu anghyfreithlon neu amheuaeth o weithgarwch o'r fath; (d) unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â diogelu; neu (e) digwyddiadau eraill sy'n ddigon difrifol i fod yn destun adroddiad digwyddiad difrifol i'r Comisiwn Elusennau (neu gorff rheoleiddio cyfatebol).
8. Rhaid i chi fod ag yswiriant priodol yn ei le bob amser ar gyfer y prosiect a'i weithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys, heb gyfyngiad, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant ar gyfer unrhyw asedau sy'n cael eu prynu gyda'r grant). Byddwch yn cyflwyno cadarnhad o'ch yswiriant i ni os byddwn yn gofyn am hynny.
9. Ar yr amod na fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn ein rhyddhau o'n rhwymedigaeth i dalu'r grant i chi yn unol â Thelerau'r Grant, rydych yn cytuno nad oes gennym unrhyw atebolrwydd am unrhyw ganlyniadau a allai godi yn sgil y prosiect, defnyddio'r grant na thynnu'r grant yn ôl. Ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn eithrio nac yn cyfyngu ein hatebolrwydd i chi mewn unrhyw amgylchiadau eraill pan nad ellir cyfyngu atebolrwydd o dan unrhyw gyfreithiau cymwys.
10. Rhaid i chi ddal unrhyw ran heb ei defnyddio o'r grant ar ymddiriedaeth ar ein cyfer ni bob amser.
11. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am i'r grant llawn neu unrhyw falans gael ei ddychwelyd ar unrhyw adeg, a rhaid i chi gydymffurfio'n brydlon â chais o'r fath. Os bydd unrhyw ran o'r grant heb gael ei wario ar ddiwedd cyfnod perthnasol y grant, byddwch yn ad-dalu unrhyw arian sydd heb ei wario i ni oni bai ein bod yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

### **Talu a Chyfrifo**

12. Byddwn yn talu'r grant drwy drosglwyddiad credyd uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebir gennych (fel y cytunwyd arno gennym ni), yn flynyddol neu'n chwarterol ymlaen llaw, fel y nodir yn y Crynodeb o'r Grant dros y dudalen, os yw'r cyllid angenrheidiol ar gael pan ddaw'r taliad yn ddyledus ac yn ddibynnol ar Delerau'r Grant.
13. Mae eich grant yn gronfa gyfyngedig, a rhaid i chi ei ddynodi felly yn eich cyfrifon.
14. Rydych yn cydnabod nad yw'r grant yn ystyriaeth ar gyfer unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW. Fodd bynnag, os bydd Cyllid a Thollau EM yn penderfynu'n ffurfiol fod y grant yn ddarostyngedig i TAW, rydych yn cytuno i dalu'r holl TAW sy'n ddyledus. Chi sy'n gyfrifol am unrhyw drethi eraill sy'n deillio o'r grant neu'r prosiect, gan gynnwys unrhyw TAW sy'n ddyledus ar y costau a godwyd gennych mewn cysylltiad â'r prosiect.
15. Rhaid i chi gadw cyfrifon manwl gywir, diweddar perthnasol ar wahân ynglŷn â'ch grant, ynglŷn â derbyn a gwario eich grant (gan gynnwys, heb gyfyngiad, yr holl dderbynebau, anfonebau a thystiolaeth ariannol

arall) a chofnodion personél a chyflogres ar gyfer staff a gyllidir gennym ni am gyfnod y grant ac am o leiaf 7 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

16. Nid ydym yn gwarantu unrhyw gyllid, ac ni fyddwn yn talu unrhyw ran o'r grant i chi, y tu hwnt i gyfnod y grant.

### **Monitro ac Adrodd Yn Ôl**

17. Rhaid i chi anfon unrhyw wybodaeth neu gofnodion y bydd arnom eu hangen atom, a hynny yn brydlon, er mwyn i ni allu monitro eich prosiect a sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio. Hefyd, rhaid i chi roi i ni, neu unrhyw berson a enwir gennym ni, fynediad at eich cyflogeion, eich eiddo, eich cyfleusterau a'ch cofnodion at ddibenion o'r fath neu at ein dibenion archwilio ein hunain. Gallwn ofyn am gofnodion neu fynediad o'r fath am hyd at 7 mlynedd ar ôl i'r prosiect orffen.
18. Byddwch yn cwblhau unrhyw adroddiadau rydym eu hangen gan ddefnyddio'r ffurflenni rydym yn eu rhoi i chi ac erbyn y dyddiad rydym yn ei nodi. Yn benodol, rhaid i chi adrodd yn ôl i ni'n flynyddol ac ar ddiwedd eich grant am y modd y cafodd ei ddefnyddio. Mae Ffurflen Adroddiad Blynyddol y Grant ar gael drwy eich cyfrif ar-lein.
19. Os byddwn, drwy fonitro ac adrodd o dan Delerau'r Grant, yn canfod unrhyw broblemau gyda'r prosiect neu'r defnydd o'r grant, gallwn godi'r un peth gyda chi ac os byddwn yn gwneud hynny, byddwch yn datrys y mater yn brydlon er boddhad i ni.
20. Bydd talu unrhyw randaliadau dilynol o'ch grant yn dibynnu arnom ni'n derbyn Adroddiad Grant Blynyddol wedi'i gwblhau'n gywir gennych chi ac arnom ni'n fodlon eich bod wedi bodloni, a'ch bod yn parhau i fodloni, y meini prawf a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer eich grant. Os na fyddwch yn adrodd yn ôl yn llwyddiannus ar unrhyw adeg, neu os byddwn yn penderfynu (yn unol â'n disgresiwn) nad yw'r prosiect yn addas nac yn briodol ar gyfer cyllid, neu nad yw'n bodloni ein meini prawf neu'r canlyniadau a ddymunir, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddychwelyd rhywfaint o'r grant, neu'r grant i gyd, yn terfynu eich grant, peidio â thalu rhandaliadau pellach o'ch grant i chi a/neu efallai y bydd hyn yn peryglu unrhyw geisiadau am grant y byddwch yn eu gwneud yn y dyfodol.

### **Cydymffurfiaeth**

21. Rhaid i chi gymryd pob cam priodol i amddiffyn plant a (pan fo'n berthnasol) bobl agored i niwed pan fyddant yn eich gofal, a'u cynorthwyo i ddatblygu. Byddwch yn sicrhau bod gennych, a'ch bod yn dilyn, bob amser drwy gydol y Cyfnod, drefniadau diogelu priodol a chadarn, polisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant i amddiffyn plant a (pan fo hynny'n berthnasol) oedolion agored i niwed, sydd o leiaf yn bodloni'r 'Safonau Gofynnol' a gyhoeddwyd gennym ar gyfer dyfarnu grantiau. Rhaid i drefniadau o'r fath gynnwys recriwtio agored, archwiliadau cefndir (gan gynnwys, heb gyfyngiad, geirdaon ac archwiliadau datgelu priodol) a chynefino strwythuredig ar gyfer y rhai a fydd yn gweithio gyda'r rhai sydd yn eich gofal, yn eu goruchwyllo, yn gofalu amdanynt neu'n cael cyswllt uniongyrchol fel arall â hwy.
22. Os byddwch chi'n ymgysylltu ag unrhyw drydydd partion wrth gyflawni eich prosiect (e.e. partneriaid cyflenwi neu isgcontractwyr) rydych chi'n gyfrifol amdanynt nhw a'u cydymffurfiaid â Thelerau'r Grant (i'r

graddau sy'n berthnasol iddyn nhw) ac yn benodol mae'n rhaid i chi sicrhau eu bod yn glynu wrth eich safonau a'ch prosesau diogelu eich hun oni bai ein bod yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig â chi.

23. Byddwch yn gwneud yn siŵr nad ydych chi, boed fel cyflogwr neu ddarparwr gwasanaethau a/neu nwyddau, yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr unrhyw gyfreithiau cydraddoldeb perthnasol. Rhaid i chi gynnal a gweithredu polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol.
24. Wrth gynnal y prosiect a gwario'r grant, byddwch yn cydymffurfio â phob cyfraith, rheoliad a chod ymarfer perthnasol bob amser.
25. Os yw eich grant ar gyfer swydd lawn amser, neu os ydym yn teimlo y bydd o fudd i chi, efallai y byddwn yn dweud ei bod yn ofynnol i rai o'ch staff ymgymryd â hyfforddiant mewn technegau hunanwerthuso (sy'n cael ei alw'n 'Hyfforddiant Eich Gwahaniaeth'). Os yw hyn yn berthnasol, mae manylion ar gael yn yr adran 'amodau ychwanegol' yn eich llythyr dyfarnu grant.
26. Rydych yn cadarnhau bod yr holl wybodaeth rydych yn ei rhoi, neu wedi ei rhoi, i ni, yn fanwl gywir a rhaid i chi ddweud wrthym yn brydlon am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu.
27. Byddwch yn sicrhau bob amser tra mae'r grant mewn grym fod gennych gyfansoddiad priodol a bod derbyn y grant a chyflawni'r prosiect yn digwydd o fewn cwmpas eich dogfennau llywodraethu.
28. Byddwch yn ymdrechu'n rhesymol i sicrhau nad ydych yn dod yn gysylltiedig ag unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng ein buddiannau ni a'ch buddiannau chi. Byddwch yn dweud wrthym yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl am unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau, a byddwch yn dilyn ein cyfarwyddiadau rhesymol i osgoi, neu ddod ag unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau i ben. Os bydd gwrthdaro rhwng buddiannau yn digwydd, gallwn roi terfyn ar eich grant ar unwaith ar ôl cael rhybudd ysgrifenedig.
29. Byddwch yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheoliadau, codau, cyfarwyddyd a sancsiynau perthnasol sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth lygredd gan gynnwys Deddf Llwgrwobrwyo 2010 a Deddf Cyllid Troseddol 2017 ac ni fyddwch yn ein rhoi ni mewn sefyllfa lle byddwn yn torri cyfreithiau perthnasol o'r fath.
30. Byddwch (a) yn gwneud yn siŵr nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd mewn unrhyw ran o'ch busnes nac mewn unrhyw ran o'ch cadwyn gyflenwi; (b) yn rhoi gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy ar waith ar gyfer eich cyflenwyr, isgcontractwyr a chyfranogwyr eraill yn eich cadwyni cyflenwi, er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw gaethwasiaeth na masnachu pobl yn digwydd yn eich cadwyni cyflenwi; (c) yn ymateb yn brydlon i gwestiynau gennym ni i chi o bryd i'w gilydd am gaethwasiaeth a diwydrwydd dyladwy, ac yn gwneud yn siŵr bod eich ymatebion i bob cwestiwn o'r fath yn gyflawn ac yn gywir; a (d) yn rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y byddwch yn ymwybodol o unrhyw gaethwasiaeth neu fasnachu pobl sy'n wir neu a amheuir yn unrhyw ran o'ch busnes neu mewn cadwyn gyflenwi sydd â chysylltiad â'r Cytundeb hwn.

31. Rydym yn hoffi i'n cefnogaeth gael ei chrybwyll ar gyfryngau cymdeithasol priodol, mewn cyhoeddiadau priodol ac mewn unrhyw gyhoeddusrwydd arall. Fodd bynnag, mae ein henw a'n logo wedi'u gwarchod gan nod masnach / hawlfraint felly cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn cysylltu â ni i gael y logo priodol a'r cyfarwyddyd ar ei ddefnyddio. Rhaid i chi ddefnyddio ein nod masnach a'n logo yn unol â thelerau ein trwydded wahanol ar gyfer nod masnach yn unig.
32. Chi sy'n berchen ar yr hawliau mewn unrhyw ddeunyddiau rydych chi'n eu creu (ac eithrio unrhyw ddeunyddiau/logos a/neu nodau masnach y gallem fod wedi'u darparu i chi) fel rhan o'ch prosiect gan ddefnyddio ein grant (oni bai ein bod yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig).
33. Efallai y byddwn yn defnyddio manylion y prosiect rydym yn ei gyllido yn unrhyw rai o'n gweithgareddau hyrwyddo fel rydym yn gweld hynny'n briodol, ond dim ond gwybodaeth am unigolion sy'n rhan o'ch prosiectau fel y disgrifir isod y byddwn yn ei defnyddio.
34. Pan fyddwn yn prosesu data personol, rydym yn rheolydd data. Mae hyn yn cynnwys data personol rydym yn eu derbyn gennych chi (er enghraifft, manylion cyswllt eich ymgeisydd arweiniol). Mae modd darllen mwy am sut rydym yn defnyddio data personol rydym yn eu derbyn gennych chi neu amdanoch chi yn yr adran 'Derbynyddion Grant' yn ein hysbysiad preifatrwydd, sydd ar gael i'w ddarllen yma <https://www.bbcchildreninneed.co.uk/legal/privacy-policy/privacy-policy-in-full/>.
35. Gan y byddwch yn rhannu data personol gyda ni am eich staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a chanolwyr, rhaid i chi gyfeirio at ein hysbysiad preifatrwydd wrth unrhyw un yr ydych yn dewis rhannu eu data personol gyda ni, cyn i chi rannu eu data personol gyda ni, a rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni os bydd eu manylion yn newid ar ôl i chi ddarparu eu gwybodaeth i ni.
36. Pan rydych chi'n prosesu data personol, rydych yn rheolydd data. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych yn eu derbyn gennym ni (er enghraifft, manylion cyswllt aseswr grantiau). Rydych chi'n gyfrifol am gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol rydych yn eu prosesu.
37. Dylech roi gwybod i ni os byddwch yn dod i wybod am achos o dorri rheolau data, sy'n hysbysadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Byddwch chi a ni'n cydweithredu os oes ymchwilad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu os oes angen hynny pan fo testun data yn ymarfer ei hawliau.
38. Peidiwch â rhoi unrhyw ddata personol sy'n berthnasol i'ch defnyddwyr gwasanaeth i ni, oni bai ein bod wedi cytuno'n benodol i hyn gyda chi ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig (er enghraifft, os byddwn yn defnyddio lluniau neu straeon am y bobl sy'n rhan o'ch prosiectau yn ein ffilmiau apêl). Dylid cyflwyno pob astudiaeth achos yn ddiennw.
39. Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi neu eich grant (gan gynnwys, heb gyfyngiad, gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chynrychiolwyr eich prosiect) gyda chyllidwyr eraill, sefydliadau, yr heddlu, rheoleiddwyr neu asiantaethau atal twyll os ydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn canfod, ymchwilio i neu atal anonestrwydd, camddefnyddio grant, twyll, terfysgaeth, gwyngalchu arian neu droseddau eraill, os ydych chi wedi darparu gwybodaeth ffug, neu os oes budd cyfreithlon i ni rannu'r wybodaeth neu os oes budd cyfreithlon i'r parti arall o'i derbyn.

40. Hefyd, efallai y byddwn yn rhannu neu'n cyhoeddi ystadegau neu wybodaeth am eich prosiect neu eich grant at ddibenion dadansoddi, er mwyn ein helpu ni a chyllidwyr eraill i ddeall y tirlun cyllido yn well, er mwyn cynyddu effeithiolrwydd dyfarnu grantiau e.e. drwy 360Giving. Er hynny, ni fyddwn yn rhannu nac yn cyhoeddi unrhyw ddata personol o dan yr amgylchiadau hyn.

#### **Mynd yn groes i'r amodau hyn, gohirio neu derfynu'r grant**

41. Efallai y byddwn, yn unol â'n disgrisiwn, yn ymatal rhag talu'r grant neu'n gohirio gwneud hynny, yn gofyn am ad-daliad o'r grant i gyd neu ran ohono, neu'n terfynu'r grant os:

- rydych yn mynd yn groes i Delerau'r Grant;
- nad yw cyflwyno'r prosiect yn dechrau o fewn 12 mis i'n llythyr cynnig grant ac rydych wedi methu rhoi esboniad rhesymol i ni am yr oedi;
- rydym o'r farn nad ydych wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran cyflawni'r prosiect neu os nad ydym yn fodlon ag ansawdd eich adroddiadau grant neu'r cynnydd a nodir yn unrhyw un o'ch adroddiadau grant;
- yn ein barn resymol ni, rydych yn cyflwyno'r prosiect mewn ffordd esgeulus;
- rydych yn cael cyllid gan drydydd parti sydd, yn ein barn resymol ni, yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n debygol o ddwyn anfri ar enw da'r prosiect neu ar ein henw da ni;
- rydych yn darparu i ni unrhyw wybodaeth sylfaenol gamarweiniol neu anghywir, neu wedi cwblhau unrhyw ffurflen gais neu adrodd yn anonest;
- rydych chi neu unrhyw aelodau o'ch mudiad, y gwirfoddolwyr neu'r staff yn gweithredu'n anonest, yn cyflawni twyll, yn ceisio cyflawni twyll, unrhyw drosedd o dan Ddeddf Llwgwrwobrwyo 2010, Deddf Cyllid Troseddol 2017, neu mae ymchwiliad yn cael ei gynnal arnoch gan y Comisiwn Elusennau, yr heddlu neu unrhyw gorff rheoleiddiol;
- rydym yn credu eich bod wedi gwario'r grant ar brosiect, eitemau neu at ddibenion nad ydym wedi'u hawdurdodi;
- rydych yn mynd yn anghymwys i ddal y grant yn unol â'r meini prawf cymhwysedd a gyhoeddwyd gennym neu unrhyw feini prawf eraill yn eich llythyr cynnig grant neu rydym wedi cytuno arnynt â chi;
- mae unrhyw un o gyflogeion, gwirfoddolwyr neu aelodau eich corff rheoli wedi gweithredu'n anonest neu'n esgeulus ar unrhyw adeg ac yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol er drwg i'r prosiect, neu wedi gweithredu mewn unrhyw ffordd sydd, yn ein barn resymol ni, yn ddwyn anfri, neu'n debygol o ddwyn anfri ar ein henw neu ar ein henw da;

- rydych yn rhoi'r gorau i weithredu am unrhyw reswm, neu'n pasio penderfyniad i gael eich diddymu neu ddirwyn i ben, yn mynd yn fethdalwr, yn ansolfent, cael eich diddymu neu'n destun unrhyw achosion tebyg;
  - rydych yn colli eich statws elusennol a/neu nid ydych yn gweithredu at ddibenion elusennol mwyach (os yw'n berthnasol i chi);
  - rydym yn ymwybodol eich bod wedi torri neu wedi methu'n sylweddol â chydymffurfio â'ch polisi mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed; a/neu
  - nid ydych yn cydymffurfio ag unrhyw amodau grant ychwanegol yn eich llythyr cynnig grant yn unol â'r amserlenni a nodir yn eich llythyr cynnig grant neu ar unrhyw adeg arall.
42. Byddwch yn rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosib os byddwch yn wynebu anawsterau ariannol neu anawsterau eraill a all gael effaith sylfaenol ar eich gallu i gyflwyno'r prosiect yn effeithiol neu gydymffurfio â Thelerau'r Grant.
43. Os bydd y grant yn cael ei derfynu neu'n dod i ben: (i) ni fydd unrhyw daliadau pellach o'r grant yn dod yn ddyledus; (ii) byddwch yn ad-dalu i ni unrhyw ran o'r grant sydd wedi'i drosglwyddo i chi gennym ni ac sydd heb gael ei wario eto (oni bai ein bod yn cytuno'n ysgrifenedig fel arall); (iii) rhaid i unrhyw rwymedigaethau sy'n codi ar ddiwedd y prosiect, gan gynnwys unrhyw rwymedigaethau diswyddo ar gyfer staff a gyflogir gennych i gyflawni'r prosiect, gael eu rheoli a'u talu gennych chi. Ni fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael gennym ni at y diben hwn; a (d) bydd y telerau sydd yn Nhelerau'r Grant y bwriedir iddynt barhau mewn grym hyd yn oed ar ôl i'r grant ddod i ben, yn parhau.
44. Pan fyddwn yn gofyn am ad-daliad o unrhyw ran o'r grant yn unol â Thelerau'r Grant, byddwch yn ad-dalu'r cyfryw symiau sy'n ddyledus i ni o fewn 30 (tri deg) diwrnod i'n cais.

### **Cyffredinol**

45. Byddwn ni a chithau'n cadw unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei rhannu gan y parti arall yn gyfrinachol ac yn peidio â'i rhannu ag unrhyw drydydd parti heb ganiatâd y parti sydd â'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, nid oes dim yn y cymal hwn yn ein rhwystro rhag rhannu unrhyw wybodaeth pan fo Telerau'r Grant yn caniatáu i ni wneud hynny fel arall (er enghraifft, o dan yr adran "Cyhoeddusrwydd a Phreifatrwydd" uchod).
46. Os nad ydych yn gwmni neu'n endid corfforedig gyda phersonoliaeth gyfreithiol unigol ei hun, bydd yr unigolion sy'n llofnodi'r Ffurflen Derbyn Grant ar eich rhan yn atebol gyda'i gilydd ac yn unigol am eich rhwymedigaethau a'ch atebolrwydd o dan Delerau'r Grant.
47. Os byddwch yn mynd yn groes i unrhyw rai o Delerau'r Grant ac os nad ydym yn gorfodi un neu fwy o'n hawliau ar unwaith, nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol. Byddwn yn ildio ein hawl i orfodi Telerau'r Grant os byddwn yn dweud wrthyich yn ysgrifenedig yn unig.
48. Mae ein hawliau a'n datrysiadau o dan Delerau'r Grant yn gronol, ac nid ydynt yn eithrio hawliau a rhwymedïau a ddarperir gan y gyfraith.

49. Rydych yn cydnabod y cawn orfodi telerau ac amodau ychwanegol ar gyfer y grant os ydych yn mynd yn groes i Delerau'r Grant neu os ydym yn credu bod amodau o'r fath yn angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno, a'n grant yn cael ei wario, fel y nodir yn eich cais neu yn dilyn unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt.
50. Ni chewch aseinio mantais Telerau'r Grant heb ein caniatâd ysgrifenedig ni ymlaen llaw.
51. Cadwn yr hawl i ddiwygio Telerau'r Grant unrhyw bryd. Byddwn yn cyhoeddi ein Telerau Grant diwygiedig ar ein gwefan ac yn rhoi gwybod i chi drwy eich cyfrif ar-lein. Ar ôl eu cyhoeddi, bydd unrhyw newidiadau'n berthnasol i'ch grant.